**Theodore Huckle QC/CF**
**Y Cwnsler Cyffredinol/ Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2011

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn atoch er mwyn helpu i egluro fy rôl fel y Cwnsler Cyffredinol a pherthynas y swydd honno â'r Cynulliad.

Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cytuno y byddai'n fuddiol hefyd amlinellu i holl Aelodau'r Cynulliad y ffactorau arbennig sy'n effeithio ar yr atebion y gallaf eu rhoi i Gwestiynau'r Cynulliad ar fy rôl fel y Cwnsler Cyffredinol. Fe osodir copi o'r llythyr hwn yn Llyfrgell y Cynulliad.

Mae'r adran o'r ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol sy'n ymdrin â'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i diwygio erbyn hyn er mwyn egluro'r sefyllfa, ac rwy'n amgáu copi ohoni. Y bwriad yw y bydd yn cael ei diweddaru os bydd fy meysydd cyfrifoldeb yn newid. Hyd yn oed o fewn fy meysydd cyfrifoldeb y cytunwyd arnynt mae yna gyfyngiadau ar yr hyn y gallaf ei ddatgelu.

Gallai fod yn ddefnyddiol atgoffa'r Aelodau y dylai cwestiynau am feysydd polisi (gan gynnwys datblygu deddfwriaeth yn y maes hwnnw, a'i heffeithiau) y mae Gweinidogion neu Ddirprwy Weinidogion penodol yn gyfrifol amdanynt gael eu cyfeirio at y Gweinidog neu'r Dirprwy Weinidog hwnnw. Bydd y ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol yn nodi'r materion hynny yr wyf fi'n gyfrifol am eu datblygu, megis gwneud y ddeddfwriaeth ddatganoledig yn fwy hygyrch yng Nghymru, ac y caniateir gofyn cwestiynau i mi yn eu cylch.

*Fy Rôl fel Cynghorydd Cyfreithiol a Braint Broffesiynol Gyfreithiol*

Y Cwnsler Cyffredinol yw uwch-gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru, a'i brif rôl yw cynnig cyngor cyfreithiol diduedd a diragfarn, a hynny heb ystyried buddiannau na dylanwad gwleidyddol.

Gan mai fi yw eu cynghorydd cyfreithiol, mae'r cyfathrebiadau rhyngof fi a Gweinidogion Cymru, pan rwyf yn eu cynghori neu'n eu cynrychioli ynghylch eu swyddogaethau, yn destun braint broffesiynol gyfreithiol arferol. Mae yna gonfensiwn sydd wedi hen sefydlu yn y Deyrnas Unedig hefyd nad yw cyngor Swyddogion y Gyfraith yn cael ei ddatgelu oddi allan i'r Llywodraeth, na hyd yn oed a ofynnwyd iddynt roi cyngor cyfreithiol neu a roddwyd cyngor o'r fath, ac eithrio o dan

Cathays Park
Cardiff
CF99 1NA
Phone/ffon 029 2082 3508
correspondence.Counsel.general@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

amgylchiadau eithriadol. Caiff y confensiwn hwn ei ddilyn yn achos y Cwnsler Cyffredinol, sef Swyddog y Gyfraith Llywodraeth Cymru, ac fe adlewyrchir hyn ym mharagraff 6.36 o’r Cod Gweinidogol.

Yn fy sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 5 Hydref 2011, tynnais sylw’r Aelodau at y gwahaniaeth rhwng fy rôl wrth gynghori neu gynrychioli Gweinidogion Cymru, a fy rôl mewn perthynas â’r swyddogaethau statudol a roddwyd i’r Cwnsler Cyffredinol yn unig, sy’n cael eu cyflawni yn annibynnol ar y Llywodraeth. Eglurais fy mod yn atebol i’r Cynulliad am y swyddogaeth olaf a’i bod gwbl briodol fy mod yn ateb cwestiynau ynglŷn â’r rhan honno o fy rôl.

Dywedais hefyd, mewn perthynas â’r materion sy’n destun braint broffesiynol gyfreithiol, mai mater i’r Gweinidogion yn y pen draw yw penderfynu a ddylid ildio’r fraint honno. Tra bo’r deunydd yn parhau i fod yn destun braint, ni allaf ateb cwestiynau yn ei gylch. Cafodd hynny ei gydnabod yn nyfarniad y cyn Lywydd yn y sesiwn Cwestiynau Llafar i’r Cwnsler Cyffredinol ar 7 Tachwedd 2007, na fyddai cwestiynau ynghylch cyngor cyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol mewn trefn.

*Trafodaethau â Swyddogion y Gyfraith*

Fel y dywedais uchod, mae’r Cwnsler Cyffredinol yn cyflawni rôl Swyddog y Gyfraith Llywodraeth Cymru, ac yn cael cyfarfodydd a thrafodaethau â Swyddogion y Gyfraith eraill y Deyrnas Unedig. Yn ôl y confensiwn, nid yw cynnwys trafodaethau rhwng Swyddogion y Gyfraith yn cael ei ddatgelu, ac ni roddir cadarnhad ychwaith a gafodd mater penodol ei drafod ai peidio. Mae Swyddogion y Gyfraith yn trafod materion ar sail cyd-ddealltwriaeth y bydd cynnwys y drafodaeth yn gyfrinachol.

Mae’r gwarant hwn o gyfrinachedd yn sicrhau y gall Swyddogion y Gyfraith gyfnewid safbwyntiau a gwybodaeth mewn modd agored a gonest. Byddai llawer o’r hyn a drafodir yn destun braint gyfreithiol gan y byddai’n ymwneud â materion y maent yn cynghori eu priod lywodraethau yn eu cylch. Pe bawn i’n datgelu cynnwys trafodaethau heb gydsyniad y Swyddogion y Gyfraith eraill gallai olygu na fyddwn i, na Chwnsleriaid Cyffredinol eraill yn y dyfodol, yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau o’r fath, neu y byddai’r trafodaethau’n mynd yn llai buddiol.

Caniateir i mi ddweud wrth y Cynulliad bod cyfarfodydd gyda’r Swyddogion y Gyfraith eraill wedi’u cynnal neu ar y gweill, ond heb gydsyniad y Swyddogion y Gyfraith eraill nid wyf yn gallu ateb cwestiynau mwy penodol am gyfarfodydd neu drafodaethau.

Yn fy sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 5 Hydref 2011, gofynnodd Mark Drakeford AC pa mor aml yr oedd Swyddogion y Gyfraith y DU wedi ymgynghori â’r Cwnsler Cyffredinol ynghylch goblygiadau posibl deddfwriaeth arfaethedig y DU ar gyfer Cymru.

Mae’n ddrwg gen i ddweud y byddai datgelu hyd yn oed yr wybodaeth honno yn torri’r gyd-ddealltwriaeth o gyfrinachedd sy’n sail i’r trafodaethau rhwng Swyddogion y Gyfraith. Gallai datgelu gwybodaeth o’r fath ddatgelu lefel neu amlder ymwneud y Twrnai Cyffredinol â materion cyfreithiol sy’n ymwneud â Chymru, gan arwain at ddyfalu amhriodol ynghylch natur y cyngor ar sail y camau a gymerwyd gan y Gweinidogion portffolio.

Fel rheol, bydd y cyfathrebu ynghylch goblygiadau deddfwriaeth y DU ar gyfer Cymru yn digwydd rhwng Gweinidog y DU ar gyfer y maes polisi perthnasol a’r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru, neu rhwng swyddogion polisi y cyfryw Weinidogion. Pe bawn i’n datgelu fy mod wedi bod yn trafod goblygiadau deddfwriaeth y DU ar gyfer

Cymru gyda’r Twrnai Cyffredinol, gallai hynny fod yn arwydd bod mater cyfreithiol arwyddocaol wedi codi yn y maes hwn. Byddai’n anoddach i ni fel Swyddogion y Gyfraith gael trafodaethau cynhyrchiol ynghylch y mater mewn awyrgylch lle ceir dyfalu yn y wasg ynghylch natur y mater dan sylw, a gallai hynny olygu bod yna lai o siawns o ddatrys y mater mewn ffordd sydd er lles Cymru.

Rwy’n gobeithio bod y llythyr hwn yn helpu i egluro’r ffactorau penodol sy’n cyfyngu ar yr atebion yn gallaf eu rhoi i Gwestiynau’r Cynulliad am fy ngwaith o ran cynghori a chynrychioli Llywodraeth Cymru, a chynnal cyfarfodydd a thrafodaethau â’r Swyddogion y Gyfraith eraill.

Mae’r adran ddiwygiedig yn y ddogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol yn cynnwys nifer o faterion yr wyf yn arwain arnynt ar ran Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Y materion hynny yw gwneud y ddeddfwriaeth ddatganoledig yn fwy hygyrch yng Nghymru a hwyluso trafodaeth gyhoeddus ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru. Gallaf hefyd, pan fo hynny’n briodol, arwain ar ran Llywodraeth Cymru wrth ymateb i ymgyngoriadau penodol ynghylch, er enghraifft, cynigion i newid y gyfraith.

Os wyf yn arwain ar ran Llywodraeth Cymru ar fater penodol rwy’n gallu rhoi gwybodaeth i’r Cynulliad (gan gynnwys drwy ateb Cwestiynau’r Cynulliad) i’r graddau ei bod yn briodol i mi wneud hynny, ond gan barchu cyfrifoldeb y Gweinidogion am faterion sydd o fewn eu meysydd portffolio hwy.

Fel y nodais uchod, rwy’n atebol i’r Cynulliad mewn perthynas â chyflawni fy swyddogaethau statudol annibynnol, yn yr ystyr y caiff yr Aelodau ofyn cwestiynau am yr agweddau hynny ar fy rôl. Dylid cydnabod, fodd bynnag, ei bod yn bosibl fy mod wedi rhoi cyngor cyfreithiol i Weinidogion yn y gorffennol, ac/neu wedi ymgynghori’n gyfrinachol â Swyddogion y Gyfraith eraill ynghylch mater yr wyf, wedi hynny, yn gweithredu un o fy swyddogaethau annibynnol yn ei gylch. Byddai’r cyfyngiadau arferol ar ddatgelu gwybodaeth yn berthnasol i wybodaeth am gyngor cyfreithiol neu drafodaethau Swyddogion y Gyfraith.

Hoffwn sicrhau’r Aelodau nad yw’n fwriad gennyf osgoi cwestiynau priodol, ac fy mod yn ei hystyried yn hynod bwysig bod y ddeddfwrfa yn gallu craffu mewn modd priodol ar yr agweddau “cyhoeddus” ac “annibynnol” ar rôl y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir



Theodore Huckle CF
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

## Y Cwnsler Cyffredinol

| |
|---|
| Dyma brif gyfrifoldebau statudol y Cwnsler Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:<br><br>(a) Fel yn achos Gweinidogion Cymru a'r Prif Weinidog, caiff y Cwnsler Cyffredinol wneud sylwadau priodol am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. (a 62)<br><br>(b) Os bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ei hystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo neu warchod buddiannau'r cyhoedd, gall gyflwyno neu amddiffyn achos cyfreithiol, neu ymddangos mewn achos o'r fath yn enw'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r rhaid i'r achos, fodd bynnag, ymdrin â materion sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol (a 67).<br><br>(c) Caiff y Cwnsler Cyffredinol ofyn i'r Goruchaf Lys benderfynu a yw darpariaeth yn un o Filiau'r Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (a 112).<br><br>(d) Caiff y Cwnsler Cyffredinol gyflwyno achos cyfreithiol er mwyn penderfynu ar "fater datganoli", neu caiff amddiffyn unrhyw achosion o'r fath a gyflwynir gan Swyddogion y Gyfraith eraill yn y DU. Caiff "mater datganoli" ei ddiffinio ym mharagraff 1(1) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n cynnwys (ymhlith pethau eraill) cwestiynau ynghylch a yw un o Ddeddfau'r Cynulliad o fewn ei gymhwysedd neu a oes gan Weinidogion Cymru swyddogaethau penodol. Gall y Cwnsler Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol hefyd i faterion datganoli gael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys iddo benderfynu arnynt. |
| Cynnig cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru mewn achosion cyfreithiol, ei chynrychioli a goruchwylio ei chynrychiolaeth mewn achosion o'r fath. |
| Cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau â Swyddogion y Gyfraith eraill. |
| Cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau â'r farnwriaeth, aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ac eraill sy'n ymdrin â gweinyddu cyfiawnder. |
| Gwneud y ddeddfwriaeth ddatganoledig yng Nghymru yn fwy hygyrch i'r proffesiwn cyfreithiol ac aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys ystyried cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth gyfredol yn y dyfodol. |
| Ymateb i gynigion neu ymgynghoriadau Comisiwn y Gyfraith ac eraill (Llywodraeth y DU er enghraifft) pan fo hynny'n briodol. |
| Hwyluso trafodaeth gyhoeddus ynghylch a ddylid cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru. |

***Cyfrifoldebau Statudol***

*Dylid nodi bod gan y Cwnsler Cyffredinol swyddogaethau hefyd o dan ddeddfwriaeth arall.*

***Sylwadau a chyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru, a thrafodaethau â Swyddogion y Cyfraith***

*Cyfyngir ar allu'r Cwnsler Cyffredinol i ateb cwestiynau ar y materion hyn.*

***Ymgyngoriadau ynghylch newidiadau arfaethedig i'r gyfraith***

*Mewn llawer o achosion y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio am y maes y mae'r gyfraith yn ymwneud ag ef fydd yn ystyried y rhain ac yn ymateb iddynt.*